# CANLYNIADAU 2023

# POPETH Y MAE ANGEN I DDYSGWYR EI WYBOD



# CEWCH WYBODAETH AM GANLYNIADAU AC APELIADAU YN Y CANLLAW BYR HWN.

Yn ogystal â darllen y canllaw hwn, mae hefyd yn bwysig iawn eich bod yn siarad â staff yn eich ysgol/coleg oherwydd gallant gynnig cyngor i chi.





## GRADDIO HAF 2023

Mae Cymwysterau Cymru wedi cadarnhau y bydd y broses raddio'n fwy hael yn 2023 na phan gafodd arholiadau eu sefyll ddiwethaf yn haf 2019.

## DIWRNODAU CANLYNIADAU

Bydd eich ysgol neu goleg yn cyhoeddi'r canlyniadau ar y dyddiau hyn:

| Dydd Iau 17 Awst | Dydd Iau 24 Awst |
|---|---|
| UG/Safon Uwch a chymwysterau Lefel 3 eraill | TGAU a chymwysterau Lefel 1/2 eraill |

Bydd eich ysgol neu goleg yn rhoi gwybod i chi sut gallwch gasglu eich canlyniadau.



## FFINIAU GRADDAU

Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen arnoch i ennill pob gradd. Gan fod arholiadau'n wahanol bob blwyddyn, felly hefyd ffiniau'r graddau.

Gallwch chi weld y ffiniau graddau ar gyfer eich cymwysterau ar Ddiwrnod y Canlyniadau. Fe welwchind nhw yma ar ddiwrnod cyhoeddi'r canlyniadau.

## YDYCH CHI'N ANSICR AM EICH CANLYNIADAU?

Os oes gennych chi gwestiwn am eich canlyniadau, siaradwch â'r staff yn eich ysgol neu goleg – byddan nhw'n gallu cynnig cyngor ac arweiniad i chi.

## GWASANAETHAU AR ÔL Y CANLYNIADAU

Gall eich ysgol neu goleg wneud cais am un o'n 'Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau'. Rhaid i chi roi eich caniatâd i'ch ysgol a'ch coleg cyn iddynt wneud cais ar eich rhan am wasanaeth ar ôl y canlyniadau.

Mae'r gwasanaethau canlynol ar gael:

- Dychwelyd sgriptiau: rydyn ni'n darparu copi electronig o'ch papurau arholiad
- Adolygiad o'r marcio: rydynni'n adolygu'r marcio i sicrhau bod eich gwaith wedi'i farcio'n gywir yn unol â'r cynllun marcio
- Ail-wiriad clerigol: rydyn ni'n ail-wirio bod pob marc wedi'i gynnwys a'i adio'n gywir.



Os yw eich ysgol neu goleg o'r farn ein bod wedi gwneud camgymeriad wrth asesu eich gwaith, gallant wneud cais am adolygiad ar eich rhan. Os ydych chi'n ymgeisydd preifat, gallwch chi wneud cais yn uniongyrchol i ni.

Gallai eich gradd fynd i fyny, mynd i lawr, neu aros yr un fath ar ôl ail-wiriad clerigol neu adolygiad o'r marcio. Mae gwybodaeth bellach, gan gynnwys terfynau amser, i'w chael yma.

## AROS AM LE YN Y BRIFYSGOL?

Rydyn ni'n cynnig gwasanaeth adolygiad o'r marcio blaenoriaethol i fyfyrwyr y mae eu lle yn y brifysgol mewn perygl. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i'ch ysgol neu goleg cyn gynted â phosibl fel y gallant wneud cais am adolygiad yn ddi-oed – y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw 24 Awst 2023.

## APELIADAU

Os yw eich ysgol neu goleg o'r farn bod camgymeriad o hyd ar ôl yr adolygiad o'r marcio, gallant gyflwyno apêl ar eich rhan. Gall eich ysgol neu goleg roi gwybodaeth bellach a chefnogaeth i chi. Gall ymgeiswyr preifat wneud cais yn uniongyrchol i ni.

Mae'n bwysig eich bod yn deall y pwyntiau canlynol:

- Rhaid i'ch ysgol/coleg wneud cais am 'Wasanaeth ar ôl y Canlyniadau' a derbyn ymateb gennym cyn gwneud cais am apêl
- Gallai eich gradd fynd i fyny, mynd i lawr, neu aros yr un fath ar ôl apêl
- Rhaid i chi roi eich caniatâd i'ch ysgol neu'ch coleg cyn iddynt wneud cais ar eich rhan am apêl.



Bydd canlyniadau apêl yn cael eu trosglwyddo i'ch ysgol/coleg o fewn yr amseroedd sydd wedi'u cyhoeddi. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yma.

## TYSTYSGRIFAU

Rydyn ni'n anfon eich tystysgrif i'ch ysgol neu goleg o fewn 12 wythnos i Ddiwrnod y Canlyniadau. Gofynnwch i'ch ysgol/coleg pryd a sut mae mynd ati i gael eich tystysgrif.

Cofiwch ei chadw'n ddiogel. Dyma dystiolaeth o'ch holl waith caled.

## CEFNOGAETH AC ARWEINIAD PELLACH

Rydyn ni wedi cyhoeddi'r blogiau canlynol:

**Canlyniadau Safon Uwch: Cam Nesaf eich Taith**



**Canlyniadau TGAU: Cam Nesaf eich Taith**



**Cymorth i Fyfyrwyr ar ôl y Canlyniadau Safon Uwch**





Bydd eich ysgol a'ch coleg yn rhoi cymorth ac arweiniad. Mae nifer o gyrff defnyddiol yn cynnig cymorth ac arweiniad hefyd:

Gyrfa Cymru Careers Wales

UCAS

Exam Results Helpline

mind

meic

childline

**DYMUNIADAU GORAU I CHI WRTH I CHI SYMUD YMLAEN Â CHAM NESAF EICH BYWYD!**

cbac wjec